# CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI
# LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Bethan Roberts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cygnor a gynhaliwyd dros Zoom
**Nos Fercher 21 Chwefror 2024 am 19.00**

**PRESENNOL:**
Y Cynghorydd Mair Owen Pierce
Y Cynghorydd Dafydd Owen
Y Cynghorydd Dafydd Roberts
Y Cynghorydd Gareth P Williams
Y Cynghorydd Anwen Jones
Y Cynghorydd Huw Jones
Y Cynghorydd David Roberts
Y Cynghorydd Lowri Jones
Y Cynghorydd Mary Hayes

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. Mair O Pierce.

   **Ymddiheuriadau** gan y Cyngr. Beca Roberts, Iwan Hywel a Sian Beidas.

2. **Cofnodion**
   **Penderfynwyd:** Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2024.

3. **Materion yn codi o'r cofnodion**

3.1 **Llwybr Rhif 3** – Adroddwyd fod y Clerc a Cyng. Dafydd Roberts wedi cyfarfod gyda'r swyddogion llwybrau a chytunwyd y bydd Cyngor Gwynedd i edrych i mewn i'r mater. Cadarnhawyd nid oes angen newid categori'r llwybrau er mwyn rhoi arwyddion ayyb ar y llwybr. Adroddwyd fod y swyddog llwybrau wedi trio ymweld â'r brodyr sydd yn ffermio'r tir, ond nid oedden nhw adref ar y pryd – ar y gweill.

3.2 **Drychau traffig, Lon y Grug/Llwybr Main –** Y Clerc i gysylltu ag Andrew Gregson – ar y gweill.

3.3 **Seddi Gwag –** Y Clerc wedi hysbysebu'r sedd wag, dim ymateb hyd yn hyn. Os nad oes diddordeb, y Clerc i hysbysebu eto.

3.4 **Biniau Baw Ci** – Nodwyd fod y Cyng. Beca Roberts wedi gwneud cais am finiau newydd – un yn Sling ac un ar Lon y Grug – dim diweddariad hyd yn hyn. Cadarnhawyd fod y Cyng. Beca Roberts hefyd wedi gwneud cais am fin ar bont Penrala yn Nhregarth.

3.5 **Arhosfan Bws/'Pull-in Bay' Llys y Gwynt –** Y Clerc wedi holi Cyngor Gwynedd os oes modd gael arhosfan/pull-in bay ger Llys y Gwynt – dim ymateb hyd yn hyn. Adroddwyd fod y Clerc wedi danfon llythyr at bennaeth yr adran amgylchedd, Dafydd Wyn Williams, Cyngor Gwynedd i amlygu pryderon y Cyngor Cymuned am y diffyg gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus yn Llys y Gwynt, ac i ofyn am gyfarfod i drafod ymhellach – dim ymateb hyd yn hyn. Diolchodd y Clerc i'r Cyngr. Dafydd Owen a Dafydd Roberts am eu cymorth gyda'r mater.

**3.6** **Mynedfa Lon Las Ogwen ger Modurdy Pandy** – estynu'r linell wen a gosod 'road studs coch (Ian Morgan). Nodwyd fod y contractwyr methu cwblhau'r gwaith mewn tywydd gwlyb – ar y gweill.

**3.7** **Bont ar y ffordd B4409 ger Moelyci –** y Cyngor wedi gwneud cais am system blaenoriaeth unffordd – Nodwyd fod Andrew Gregson wedi ymgymryd ar arolwg bras o system blaenoriaeth yn yr ardal ac mae yna opsiwn i weithredu ar gynllun. Yr unig ystyriaeth oed ganddynt ar hyn o bryd (heblaw am y gost) yw na dim ond y cyngor cymuned sydd wedi codi hwn fel pryder. Nid oes yr un cwyn wedi ei dderbyn gan y cyhoedd am y problemau yr ydym wedi ei amlygu. Mae'n hanfodol bod unrhyw welliannau i'r rhwydwaith yn un ai diwygio diogelwch neu lif traffig, ac yn cynnwys tystiolaeth glir bod y cynllun am fod yn effeithiol ac yn werth am arian. Y Clerc i drafod y mater ymhellach gydag Andrew Gregson, Cyngor Gwynedd.

**3.8** **Llecyn Tir Bont Twr** - Cadarnhawyd fod y Clerc wedi cyfarfod gyda Matt Brown, Cwmni Savills ar y 26ain o Hydref. Adroddwyd fod Cwmni Breedon ddim mewn sefyllfa i drosglwyddo'r tir yn ôl i berchnogaeth y Cyngor Cymuned ar hyn o bryd, a soniwyd am y posibilrwydd o les tymor byr. Nodwyd siom y Cyngor Cymuned gyda'r ymateb hwn. Nodwyd fod y Clerc wedi ail danfon y dogfennau perthnasol at Matt Brown i amlygu fod tir mewn sylw i fod o dan berchnogaeth y Cyngor Cymuned, ac nid Breedon – dim ymateb hyd yn hyn.

**3.9** **Cysgodfan Bws, Pont Penrala** – Cadarnhawyd fod y Clerc yn cyfarfod gyda Dafydd Wheldon Williams o Gyngor Gwynedd wythnos nesaf, i drafod y posibilrwydd o osod cysgodfan ar y bont. Hefyd, nodwyd fod y Clerc wedi amlygu pryderon trigolion lleol am y coed ger y Ganolfan, cadarnhawyd eu bod yn edrych i mewn i'r mater.

**4. Gohebiaeth**

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Chwefror 2024'

**Partneriaeth Ogwen – Cyfraniad gwirfoddol tuag at gostau annisgwyl trydan –** Penderfynwyd gofyn i'r Bartneriaeth am adroddiad manwl o'r costau sydd yn gysylltiedig â'r llyfrgell, ac i ail gyflwyno'r eitem hwn mis nesaf.

**Gareth Llwyd, Llais Ogwan - Adroddiadau o'r Cynghorau Cymuned ar gyfer Llais Ogwan** – Penderfynwyd y bydd y Clerc yn cynnwys yr eitem hon yn ar bob agenda o hyn ymlaen, ac i'r Cyngor penderfynu pob mis beth i gynnwys ar yr adroddiad.

**5. Rhoddion**

Penderfynwyd ail gyflwyno'r eitem hwn yn cyfarfod mis Mawrth.

**6. Gwaith y mis**

**Glanhau cysgodfannau bws** – Penderfynwyd bydd y Clerc yn gofyn i'r Swyddog Cynnal i lanhau'r cysgodfannau o fewn Mynydd Llandygai a Tregarth.

**Llwybr o amgylch y Ganolfan** – Nodwyd fod y Cyng. Dafydd Owen wedi gofyn i'r contractwr ddod allan i lanhau'r llwybr o amgylch y Ganolfan.

**Problemau Baw Ci** – Nodwyd fod llawer o faw ci ar hyd Ffordd Tanrhiw yn Nhregarth, nodwyd fod angen i bawb adrodd drwy wefan Cyngor Gwynedd os oes broblemau yn eu hardal. Y Clerc i adrodd i Gyngor Gwynedd am y problemau ar Ffordd Tanrhiw.

**7. Adroddiad Cynrychiolwyr**

**Diwrnod Agored Yr Hen Bost, Bethesda –** Adroddwyd fod y Cyngr. Mair Pierce a Dafydd Roberts wedi mynychu'r diwrnod agored, roedd yn ddiwrnod llwyddiannus iawn.

**Webinar Gwylio Cyflymer Cymunedol –** Adroddwyd y Clerc ei bod wedi mynychu'r webinar am gynllun gwylio cyflymder cymunedol. Cytunwyd bydd y Clerc yn cylchredeg y wybodaeth allan i'r aelodau. Cyng. Mary Hayes i ddanfon y wybodaeth ymlaen at bennaeth Ysgol Bodfeurig.

**8. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu**

8.1 Yn anffodus nid oedd yn bosib cylchredeg yr adroddiad ariannol y mis hwn oherwydd nid oedd gan y Clerc fynediad at y cyfrifon ar y we. Pan fo mynediad yn bosibl, cytunwyd y byddai'r Clerc yn anfon yr adroddiad allan drwy e-bost.

**9. Taliadau**

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Partneriaeth Ogwen | Cyfraniad costau rhedeg Llyfrgell | £1,386.20 |
| Geiriau Gwyn | Cyfieithu cyfarfod Gorffennaf 2023 | £96.00 |

**10. Penderfyniadau Cynllunio**

| | |
|---|---|
| **C18/0767/16/LL** | Coed Wern, Glasinfryn<br>Datblygiad llety gwyliau (cynllun diwygiedig) sy'n golygu:- Gosod sylfeini ar gyfer cabannau gyda decio cysylltiedig. Gosod sylfeini ar gyfer podiau glampio. Seilwaith cysylltiedig i gynnwys ffyrdd mewnol, mannau parcio, systemau draenio cynaliadwy ynghyd a draenio dwr aflan. Tirlunio meddal a chaled gan gynnwys torri rhai coed, cadw coed ac ymgymryd a gwelliannau i'r goedlan presennol. Codi derbynfa/adeilad gwerthiant ynghyd ac ail-orchuddio'r adeilad presennol a'i ddefnyddio fel hwb e-beicio gyda pwyntiau gwefru trydan.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C23/0728/16/LL** | Cae Clyd Dob, Tregarth<br>Codi annedd teuluol<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C23/0818/16/LL** | Carreg Hafan, Tregarth<br>Cais cynllunio llawn ar gyfer isrannu ac ymestyn eiddo presennol er mwyn darparu 3 fflat byw â chymorth hunangynhwysol gydag ardaloedd cymunedol ar gyfer staff a thenantiaid<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau |
| **C23/0849/16/LL** | Parth 7 Parc Bryn Cegin, Llandygai,<br>Codi unedau diwydiannol newydd |

| | |
|---|---|
| | **Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C23/0844/16/AM** | Parth 7 Parc Bryn Cegin, Llandygai<br>Datblygu 4 uned fasnachol (amrywiol o ran maint) yn cynnwys mynediad newydd i gerbydau a cherddwyr gyda maes parcio.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C23/0901/16/CT** | 19 Llwybr Main, Mynydd Llandygai<br>Gwaith i goed mewn ardal gadwraeth yng ngardd cefn 19 Llwybr Main, Mynydd Llandygai.<br>**Penderfyniad:** Cefnogi |
| **C23/0918/16/LL** | Fferm Tan y Foel, Rallt, Pentir<br>Codi annedd gweithiwr amaethyddol a thanc septig cysylltiedig ynghyd a gwaith tirlunio<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |
| **C23/0892/16/CT** | Gwalia, 1 Bryn Eglwys, St Anns, Mynydd Llandygai<br>Gais i dorri 6 coeden o fewn ardal cadwraeth<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd heb amodau. |
| **C24/0004/16/LL** | Land at Maes Talog, Tregarth<br>Codi annedd marchnad agored sengl deulawr a garej ddwbl ar wahân.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |
| **C23/1019/16/YA** | Rhes Amana, Y Gefnan, Mynydd Llandygai<br>Adeilad amaethyddol at bwrpas cadw offer a storio peiriannau a phorthiant anifeiliaid. Maint arwynebedd llawr 12m x 8m.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |

**11. Ceisiadau Cynllunio**

| | |
|---|---|
| **C24/0064/16/AC** | 14 Y Gefnan, Mynydd Llandygai<br>Cais i ddiwygio amod 2 (Cynlluniau a gymeradwywyd) o ganiatâd C23/0777/16/DT, ar gyfer estyniad llawr cyntaf newydd yn y cefn ynghyd ag ardal to fflat newydd gydag atriwm, er mwyn caniatáu diwygiad i'r dyluniad i godi uchder to'r estyniad 400mm.<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad. |
| **C23/1026/16/DT** | 33 Tan Y Bwlch, Mynydd Llandygai<br>Trosi rhan o adeilad allanol yn anecs.<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad, ond angen i'r amodau nodi yn glir mai "atodiad" |

| | |
|---|---|
| | (annexe) i'r prif dŷ yw hwn - rhag ofn iddo gael ei addasu yn "Air B&B" (neu rhywbeth tebyg) yn ddiweddarach. |
| **C24/0095/16/RA** | Breedon, Chwarel Penrhyn<br>Cais ar gyfer rhyddhau amodau 11 (Mesuriadau osgoad rhesymol i warchod ymlusgiaid) , 33 (Adroddiad monitro Gwaun Gynfi), 34 (Sustem draenio dwr wyneb) a 38 (Cynllun rheoli/strategaeth cynnal archeolegol) o ganiatâd cynllunio cyfeirnod C22/0327/16/AC<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad gyda sylwadau. |
| **C24/0071/16/LL** | Cnc Fuels Parc Bryn Cegin, Llandygai<br>Codi 10 uned ddiwydiannol, mynediad newydd, parcio a thirlunio.<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad. |
| **C23/0930/16/CR** | Cororion Cottage Lôn Y Wern, Tregarth<br>Gosod dau ffenestr to ar gefn yr adeilad<br>**Penderfyniad:** Cefnogi |
| **C24/0048/16/LL** | Ynys Ganol, Mynydd Llandygai<br>Adeiladu Menage gydag arwyneb tywod a ffibr gyda ffensys Post a Rheilen o'i amgylch ar gyfer defnydd preifat yn unig.<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad. |

**12. Unrhyw fater brys arall**

**Gwasanaeth 67S Dydd Sul –** Adroddwyd fod y gwasanaeth hwn yn darfod ar y 25ain o Fawrth. Nodwyd bydd y gwasanaeth T10 dal i redeg ar ddydd Sul, ond ei fod ddim yn mynd drwy Rachub a Tregarth. Y Clerc i holi am y posibilrwydd o greu arhosfan bws ar 'Bont Halfway', oherwydd nid oes arhosfan o gwbl rhwng Bethesda a'r Bryn ger pentref Llandygai, felly nid oes modd i drigolion Tregarth defnyddio'r gwasanaeth. Y Clerc i drafod hyn gyda Dafydd Wyn Williams, Cyngor Gwynedd, yn dilyn ein cais am gyfarfod ynglŷn â Llys y Gwynt (uchod).